Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau

## Dilyniant Hysbysiadau a Siartiau Llif

Ionawr 2025

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50130, ISBN digidol 978-1-83715-137-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Canllawiau: Dilyniant Hysbysiadau a Siartiau Llif

## Disgrifiad o'r holl hysbysiadau o dan Ddeddf Caffael 2023

1. Ceir isod ddisgrifiad o'r holl hysbysiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Caffael 2023 (y Ddeddf). Rydym wedi nodi pa hysbysiadau sy'n orfodol a pha rai sy'n wirfoddol. Mae pob gwerth a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

    a. **Hysbysiad Piblinell** – Gorfodol i awdurdodau contractio sydd o'r farn y byddant yn talu mwy na £100m o dan gontractau perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac os bydd y contract yn fwy na £2m. Rhaid i'r hysbysiad piblinell gael ei gyhoeddi o fewn 56 diwrnod i ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol berthnasol, sef y cyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar y 1 Ebrill.

    b. **Hysbysiad Caffael Arfaethedig** – Mae hwn yn hysbysiad gwirfoddol sy'n cyfateb i Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw o dan y Rheoliadau blaenorol, er na chaiff ei ddefnyddio fel modd i alw am gystadleuaeth).

    c. **Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad** – Gorfodol os yw awdurdod contractio yn bwriadu ymgymryd ag ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad neu os yw wedi gwneud hynny. Nid oes rhaid i awdurdodau contractio ymgymryd ag ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, ond os gwnânt hynny yna mae'n rhaid iddynt gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad neu roi rhesymau dros beidio â gwneud hynny yn yr Hysbysiad Tendro.

    d. **Hysbysiad Tendro** – Gorfodol pan fydd awdurdod contractio yn bwriadu dyfarnu contract cyhoeddus o dan adran 19 o'r Ddeddf (diffinnir "contract cyhoeddus" ei ddiffinio yn Adran 3 y Ddeddf). Nid yw hyn yn gymwys os bydd contract yn ôl y gofyn o dan Farchnad Ddynamig yn ymwneud â marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol neu gontractau yn ôl y gofyn o dan Farchnad Ddynamig sydd o dan y trothwy a bennwyd gan awdurdod Cymreig datganoledig.

    e. **Hysbysiad Terfynu Caffaeliad** – Gorfodol, os, ar ôl cyhoeddi tendr neu hysbysiad tryloywder mewn perthynas â chontract cyhoeddus, bydd awdurdod contractio yn penderfynu peidio â dyfarnu contract. Noder nad yw hyn yn gymwys i gyfleustodau preifat.

    f. **Hysbysiad Dyfarnu Contract** – Mae hwn yn hysbysiad gorfodol sy'n sefydlu bwriad yr Awdurdod Contractio i ymrwymo i gontract cyhoeddus, ac mae'n rhaid ei gyhoeddi cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus.

g. **Hysbysiad Manylion Contract** – Mae hwyn yn hysbysiad gorfodol sy'n nodi yr ymrwymwyd i gontract cyhoeddus. Wrth gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract datganoledig nid oes angen i awdurdodau Cymru gyhoeddi copi o'r contract (wedi'i olygu), oni bai eu bod yn caffael contract galw i ffwrdd cyhoeddus gydag amcangyfrif o werth o fwy na £5 miliwn o dan drefniant caffael a gadwyd yn ôl, (h.y. fframwaith neu farchnad ddeinamig a ddyfernir gan Awdurdod Contractio Lloegr / heb ei ddatganoli).

h. **Hysbysiad Newid Contract** – Gorfodol os cyrhaeddir trothwyon penodol a nodir yn y Ddeddf. Mae'n rhaid i awdurdod contractio gyhoeddi Hysbysiad Newid Contract cyn addasu contract cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (ac eithrio o dan amgylchiadau a ragnodwyd). Cyfeiriwch at y canllawiau ar 'Newidiadau i Gontract' ar gyfer yr amgylchiadau y mae'n rhaid i awdurdod contractio gyhoeddi Hysbysiad Newid Contract ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig. Dylai awdurdodau datganoledig Cymru nodi, os ydynt yn caffael o dan drefniant caffael a gadwyd yn ôl, efallai y bydd angen iddynt gyhoeddi copi o'r contract cyhoeddus wedi'i addasu (wedi'i olygu), pe bai addasiad y contract yn bodloni trothwyon penodol (fel yr amlinellir yn y canllawiau 'Newidiadau i Gontract').

i. **Hysbysiad Terfynu Contract** – Mae hwn yn hysbysiad gorfodol ar gyfer contract cyhoeddus, ac mae'n rhaid ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod i derfynu contract (gan gynnwys terfynu contract gan barti a therfynu contract drwy ryddhau, dod i ben, diddymu a neilltuo drwy orchymyn llys).

   Nid yw Hysbysiad Terfynu Contract yn gymwys:

   i. i gyfleustodau preifat, na
   ii. mewn perthynas â chontractau dewis defnyddiwr (gweler adran 41 ac Atodlen 5, paragraff 15 o'r Ddeddf).

j. **Hysbysiadau Marchnad Ddynamig** – Gorfodol pan fwriedir i farchnad ddynamig gael ei hysbysebu, ei sefydlu, ei dyfarnu, ei haddasu neu pan fydd marchnad ddynamig yn peidio â gweithredu. Bydd un hysbysiad a elwir yn Hysbysiad Marchnad Ddynamig, sydd wedyn yn cael ei ddiweddaru wrth iddo lifo drwy bob un o'r camau.

   1 – Hysbysebu,

   2 – Sefydlu,

   3 – Newid,

   4 – Terfynu.

   Noder na fydd Cam 4 yn gymwys os sefydlwyd y Farchnad Ddynamig gan gyfleustod preifat.

k. **Hysbysiad Tryloywder** – Gorfodol pan fydd dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu adran 43.

l. **Hysbysiad Tendro o dan y Trothwy** – Gorfodol pan fydd awdurdod contractio yn bwriadu hysbysebu er mwyn gwahodd tendrau ar gyfer caffaeliad o dan y trothwy.

m. **Hysbysiad Cyflawni Contract** – Mae hwn yn hysbysiad gorfodol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir isod ac mae’n cyflawni dwy weithred yn ystod y cam rheoli contract (noder, fodd bynnag, nad oes angen hysbysiad cyflawni contract ar gyfer contract cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat):

- Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Bydd angen hysbysiad cyflawni contract ar gyfer pob contract gwerth dros £5 miliwn ble y mae dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) wedi eu pennu (fel yr amlinellwyd yn y canllawiau DPAau). Mae'n rhaid iddo gael ei gyhoeddi o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeg mis yn ystod oes y contract ac wrth ddod â’r contract o ben, ac mae’n rhaid asesu perfformiad y cyflenwr yn erbyn y DPAau a bennir.
- Torri Contract /Methu Perfformio: Mae’n rhaid cyhoeddi yr hysbysiad cyflawni contract hefyd os oes achos o dorri contract neu fethu perfformio,(fel yr amlinellir yng nghanllawiau'r Hysbysiad Cyflawni Contract). Mae'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad cyflawni contract ar gyfer torri contract neu berfformiad gwael yn berthnasol i'r rhan fwyaf o gontractau cyhoeddus, nid yn unig y rhai sy'n werth mwy na £5 miliwn. Fodd bynnag, os caiff y contract ei derfynu'n llawn, mae angen hysbysiad terfynu contract.


## Siartiau Llif o Hysbysiadau

2. Mae’r wybodaeth ar y tudalennau canlynol wedi’i haddasu o ‘Siart Lif Hysbysiadau’ (ar gael yma).

3. **Nodwch fod yr holl werthoedd a ddyfynnir o fewn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.**

### Hysbysiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Caffael 2023 Allwedd

4. Mae'r allwedd ganlynol yn berthnasol i bob un o'r siartiau llif isod.




Allwedd:

Hybysiadau sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau mewn glas.

Hysbysiadau gorfodol mewn coch.


Hybysiadau dewisol mewn gwyrdd.

## Hysbysadwy sydd o dan y Trothwy

5. Gwahaniaethau ar gyfer contractau hysbysadwy sydd o dan y contract yng Nghymru:

   a. Ar gyfer awdurdodau Cymreig datganoledig, contract rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy sydd â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £30,000 yw “contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy”. Bydd y trothwy hwn yn gymwys yn yr un modd i awdurdodau llywodraeth ganolog yng Nghymru ac awdurdodau nad ydynt yn awdurdodau llywodraeth ganolog yng Nghymru.
   b. Os yw awdurdod llywodraeth ganolog yng Nghymru yn caffael o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl, er enghraifft Fframwaith a sefydlwyd gan Wasanaethau Masnachol y Goron, yna'r gwerth o dan y trothwy a fyddai'n gymwys yw £12,000.

6. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy.



Cam Tendro a Dyfarnu

Hysbysiad Tendro o dan y Trothwy - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau

Hysbysiad Manylion Contract (a elwir yn Hysbysiad Dyfarnu Contract ar hyn o bryd) - gorfodol

### Canllawiau Perthnasol ar gyfer Trothwyon Hysbysadwy sydd o dan y Trothwy:

- Canllaw ar fod o dan y Trothwy
- Canllaw ar Hysbysiad Manylion Contract a Dogfennau Contract

## Contractau Cyhoeddus

7. Mae pob hysbysiad yn yr adrannau canlynol o'r canllawiau hyn yn cyfeirio at Gontractau Cyhoeddus.

8. Diffinnir contract cyhoeddus yn Adran 3 o'r Ddeddf, (Saesneg yn unig) sef:

**Any contract for the supply, for pecuniary interest, of goods, services or works to a contracting authority which—**

a. has an estimated value of not less than the threshold amount for the type of contract, and
b. is not an exempted contract.

**Any framework which—**

a. has an estimated value of not less than the threshold amount for the type of contract, and
b. is not an exempted contract.

**Any concession contract which—**

a. has an estimated value of not less than the threshold amount for the type of contract, and
b. is not an exempted contract.


**Schedule 1 in the Procurement Act sets out the threshold amounts.**

### Canllawiau Perthnasol ar gyfer Contractau Cyhoeddus:

- Canllaw ar Gaffaeliad a Gwmpaswyd
- Canllawiau ar drothwyon

## Gweithdrefn Agored/Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol

9. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi mewn gweithdrefn agored/gweithdrefn hyblyg gystadleuol.




Cam Cyn Tendro:

Hysbysiad Piblinell - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Caffael Arfaethedig (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw) – dewisol.

Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Cam Tendro a Dyfarnu:

Hysbysiad Tendro (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Contract) – gorfodol.

Hysbysiad Terfynu Caffaeliad - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Terfynu Caffaeliad – gorfodol.

Hysbysiad Manylion Contract (Hysbysiad Dyfarnu Contract o dan reoliadau caffael presennol) – gorfodol.

Rheoli Contract:

Hysbysiad Cyflawni Contract - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Newid Contract (o dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Addasu Contract) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.


Hysbysiad Terfynu Contract (Gweler nodyn 1 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

### Canllawiau Perthnasol ar gyfer Gweithdrefn Agored/Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol:

- Canllaw ar Weithdrefnau Tendro Cystadleuol
- Canllaw ar Ddyfarnu Contractau Cystadleuol
- Canllaw ar Hysbysiadau Piblinell
- Canllaw ar Hysbysiadau Caffael Arfaethedig
- Canllaw ar Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad
- Canllaw ar Hysbysiad Terfynu Caffaeliad
- Canllaw ar Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Manylion Contract a Dogfennau Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Cyflawni Contract
- Canllaw ar Addasu Contract
- Canllaw ar Derfynu Contract

## Dyfarniad Uniongyrchol

10. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer dyfarniad uniongyrchol.




Cam Cyn Tendro

Hysbysiad Piblinell - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Cam Tendro a Dyfarnu:

Hysbysiad Tryloywder (yn debyg i hysbysiad VEAT yn y rheoliadau caffael presennol) – gorfodol.

Hysbysiad Terfynu Caffaeliad - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau

Hysbysiad Dyfarnu Contract – gorfodol.

Hysbysiad Manylion Contract (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Dyfarnu Contract) – gorfodol.

Rheoli Contract:

Hysbysiad Cyflawni Contract - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Newid Contract (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Addasu Contract) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.


Hysbysiad Terfynu Contract (Gweler nodyn 1 ar ddiwedd y ddogfen)- sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

### Canllawiau Perthnasol ar gyfer Dyfarniad Uniongyrchol:

- Canllaw ar Ddyfarniad Uniongyrchol
- Canllaw ar Hysbysiadau Piblinell
- Canllaw ar Hysbysiad Terfynu Caffaeliad
- Canllaw ar Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Manylion Contract a Dogfennau Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Cyflawni Contract
- Canllaw ar Addasu Contract
- Canllaw ar Derfynu Contract

## Contractau yn ôl y gofyn o dan Fframweithiau

11. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer contractau yn ôl y gofyn o dan fframweithiau.



Cam Tendro a Dyfarnu:

Hysbysiad Dyfarnu Contract – gorfodol.

Hysbysiad Manylion Contract (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Dyfarnu Contract) (Gweler nodyn 2 ar ddiwedd y ddogfen) – gorfodol.

Rheoli Contract:

Hysbysiad Cyflawni Contract - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Newid Contract (O dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Addasu Contract) (Gweler nodyn 3 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.


Hysbysiad Terfynu Contract (Gweler nodyn 1 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

## Canllawiau Perthnasol ar gyfer Contractau yn ôl y gofyn o dan Fframweithiau:

- Canllaw ar Fframweithiau
- Canllaw ar Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Manylion Contract a Dogfennau Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Cyflawni Contract
- Canllaw ar Addasu Contract
- Canllaw ar Derfynu Contract

## Marchnadoedd Dynamig

12. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer marchnadoedd dynamig.




Cam Cyn Tendro:

Hysbysiad Piblinell - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Caffael Arfaethedig (O dan y rheoliadau caffael: Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw) – dewisol.

Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Cam Tendro a Dyfarnu:

Cam 1: Hysbysiad i nodi bwriad i sefydlu Marchnad Ddynamig (Hysbysebu) – gorfodol.

Cam 2: Hysbysiad yn cadarnhau bod Marchnad Ddynamig wedi'i sefydlu (Sefydlu) – gorfodol.

Rheoli Contract:

Cam 3: Hysbysiad yn nodi unrhyw addasiadau i Farchnad Ddynamig (Newid) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.


Cam 4: Hysbysiad yn cadarnhau bod Marchnad Ddynamig yn peidio â gweithredu (Terfynu) (Gweler nodyn 4 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

### Canllawiau Perthnasol ar gyfer Marchnadoedd Dynamig:

- Canllaw ar Hysbysiadau Piblinell
- Canllaw ar Hysbysiadau Caffael Arfaethedig
- Canllaw ar Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad
- Canllaw ar Farchnad Ddynamig

## Contractau yn ôl y gofyn o dan Farchnadoedd Dynamig

13. Mae'r siart lif isod yn dangos dilyniant yr hysbysiadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer contractau yn ôl y gofyn o dan farchnadoedd dynamig.



Cam Tendro a Dyfarnu:

Hysbysiad Tendro (Yn debyg i: Hysbysiad Contract) (Gweler nodyn 5 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Terfynu Caffaeliad - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Dyfarnu – gorfodol.

Hysbysiad Manylion Contract (a elwir yn Hysbysiad Dyfarnu Contract ar hyn o bryd) (Gweler nodyn 2 ar ddiwedd y ddogfen) – gorfodol.

Rheoli Contract:

Hysbysiad Cyflawni Contract - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Newid Contract (o dan y rheoliadau caffael presennol: Hysbysiad Addasu Contract) (Gweler nodyn 3 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

Hysbysiad Terfynu Contract (Gweler nodyn 1 ar ddiwedd y ddogfen) - sy'n ofynnol o dan rai amgylchiadau.

## Canllawiau Perthnasol ar gyfer Contractau yn ôl y gofyn o dan Farchnadoedd Dynamig:

- Canllaw ar Hysbysiad Terfynu Caffaeliad
- Canllaw ar Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Manylion Contract a Dogfennau Contract
- Canllaw ar Hysbysiad Cyflawni Contract
- Canllaw ar Addasu Contract
- Canllaw ar Derfynu Contract
- Canllaw ar Farchnad Ddynamig

## Nodiadau

14. Gweler y nodiadau isod 1- 5 sydd wedi'u tynnu allan o'r dudalen Nodiadau yn 'Siart Llif Hysbysiad' ar gael yma.

    **Nodyn 1:** Mae Hysbysiadau Terfynu Contract yn orfodol ar gyfer contract cyhoeddus, ond nid ydynt yn gymwys i gyfleustodau preifat na chontractau dewis defnyddiwr (gweler adran 41 ac Atodlen 5, paragraff 15 o'r Ddeddf).

    **Nodyn 2:** Dim ond os dyfarnwyd y contract fel rhan o gaffaeliad o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl (h.y. fframwaith neu Farchnad Ddynamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contractio yn Lloegr / awdurdod contractio heb ei ddatganoli) ac os yw'r contract yn ôl y gofyn yn werth mwy na £5m y mae'n ofynnol i awdurdodau Cymreig datganoledig gyhoeddi contractau wedi'u golygu.

    **Nodyn 3:** Dim ond os dyfarnwyd y contract fel rhan o gaffaeliad o dan drefniant caffael a gedwir yn ôl (h.y. fframwaith neu Farchnad Ddynamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contractio yn Lloegr / awdurdod contractio heb ei ddatganoli) ac os yw'r contract yn ôl y gofyn yn werth mwy na £5m y mae'n ofynnol i awdurdodau Cymreig datganoledig gyhoeddi contractau addasedig wedi'u golygu neu'r addasiad.

    **Nodyn 4:** Nid yw'r hysbysiad yn cadarnhau bod Marchnad Ddynamig wedi peidio â gweithredu yn ofynnol os sefydlwyd y Farchnad Ddynamig gan gyfleustod preifat.

    **Nodyn 5:** Nid yw hysbysiad tendro ar gyfer contract yn ôl y gofyn o dan Farchnad Ddynamig yn gymwys os yw'r contract yn ôl y gofyn yn ymwneud â'r canlynol:

    a. Marchnad Ddynamig cyfleustodau cymhwysol; neu
    b. Ar gyfer contractau yn ôl y gofyn sydd o dan y trothwy a roddwyd ar waith gan awdurdod Cymreig datganoledig.